

Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy 2021

Paratowyd gan y tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a'r Môr

Cyflwyniad

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau, a chyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd. Rydym wedyn yn cyhoeddi asesiad blynyddol o'u perfformiad.

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy¹ ar 1 Gorffennaf 2018, gan ffurfio cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfan gwbl o fewn ffin wleidyddol Cymru. Cafodd yr holl² asedau a oedd yn berchen i Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yng Nghymru yn flaenorol, ac a oedd yn cael eu rheoli ganddynt, eu trosglwyddo i Hafren Dyfrdwy. Er mwyn parhau amllder adrodd, ac er mwyn helpu gyda chymariaethau o un flwyddyn i'r llall, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio cyfuniad o ddata Hafren Dyfrdwy a data cyfatebol gan Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy o'r ardal weithredol y mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol amdani bellach. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2021. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Dŵr Cymru, y gallwch ei weld ar ein [gwefan](#).

Nid yw metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a ddefnyddir ar gyfer y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn berthnasol i Hafren Dyfrdwy. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio themâu tebyg, er enghraifft digwyddiadau llygredd a chydymffurfedd â thrwyddedau.

¹ Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: HAFREN DYFRDWY CYFYNGEDIG, rhif cwmni 0352762, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Packsaddle, Ffordd Wreccsam, Rhostyllen, Wreccsam, Clwyd, LL14 4EH.

² Yr unig eithriad yw gwaith trin dŵr Cwm Elan, a fydd yn parhau i fod yn eiddo i Severn Trent Water ac yn cael ei reoli ganddo er ei fod wedi'i leoli yng Nghymru. Bydd CNC yn rheoleiddio'r safle hwn ac yn darparu data perfformiad amgylcheddol i Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gellir ei gynnwys yn adroddiadau Severn Trent Water.

Prif negeseuon ar berfformiad

Yn 2021, gwnaeth Hafren Dyfrdwy y canlynol:

- parhau i berfformio'n dda o safbwynt digwyddiadau llygredd difrifol heb gael unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol;
- gwella perfformiad ar gyfer digwyddiadau llygredd carthffosiaeth, a oedd yr un fath â'i berfformiad yn 2019 (dau ddigwyddiad);
- cael sgôr o 100 yn y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw;
- cyflenwi 100% o'i gynlluniau ar gyfer Cynllunio Rheoli Asedau 7 (AMP7) y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol.

Ond mae angen gwella yn y meysydd hyn:


- cyfanswm nifer y digwyddiadau llygredd, gan y bu cynnydd yn 2021 gyda chyfanswm o wyth digwyddiad llygredd (dau yn ymwneud â charthffosiaeth a chwech yn ymwneud â chyflenwad dŵr);
- perfformiad hunangofnodi, gyda dim ond 75% o ddigwyddiadau yn cael eu hunangofnodi;
- cydymffurfio 97.9% ag amodau ei drwyddedau gollwng dŵr rhifol;
- cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau gollwng dŵr, a waethygodd yn 2021.

Digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddiwr, rydym yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, a daw rhai o'r rhain o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero. Nid ydym yn disgwyl unrhyw ddigwyddiadau difrifol (Uchel).

Fel y dangosir yn y graff isod, cafodd Hafren Dyfrdwy berfformiad amrywiol yn 2021 ar gyfer digwyddiadau llygredd. Gwnaeth y cwmni:

- gadw at sero digwyddiad llygredd difrifol (Uchel);
- cael llai o ddigwyddiadau carthffosiaeth – dau yn 2021, o'i gymharu â phump yn 2020. Yn 2021, roedd y ddau ddigwyddiad o weithfeydd trin carthion. Roedd ganddynt oll effaith amgylcheddol isel (Categori 3); ond,
- roedd ganddynt nifer uwch o ddigwyddiadau o asedau cyflenwad dŵr – chwech yn 2021, o'i gymharu ag un yn 2020. Yn 2021, roedd y chwe digwyddiad o'r rhwydwaith dosbarthu dŵr. Roedd effaith amgylcheddol isel gan bob un ohonynt (Categori 3).



Digwyddiadau hunangofnodi

Hoffem weld yr holl gwmnïau dŵr yn hunangofnodi³ o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well;
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunangofnodi;
- defnyddio ei ddata i nodi manau peryglus a thargeddu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau;
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl.

Mae'n siomedig gweld bod perfformiad hunangofnodi Hafren Dyfrdwy wedi gostwng i 75% (chwech o bob wyth digwyddiad wedi'u hunangofnodi) ar ôl cyflawni 100% yn 2020. Disgwyliwn i Hafren Dyfrdwy wella'r gwaith o hunangofnodi digwyddiadau yn 2022. Rydym yn annog Hafren Dyfrdwy i ystyried mentrau eraill a ddefnyddir ar draws y diwydiant i wella a sefydlogi ei berfformiad yn y maes hwn.

Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Rydym yn rhoi trwyddedau ar gyfer gollwng dŵr, gan gynnwys gollyngiadau sydd wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiad fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunanfonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfedd. Rydym yn disgwyl cydymffurfedd â holl amodau'r drwydded.

Mae Hafren Dyfrdwy yn gweithredu 39 o weithfeydd trin carthion rhifol (sydd â chyfanswm o 43 o ollyngiadau) a pump o weithfeydd trin dŵr rhifol (mae gan bedwar ohonynt gyfanswm llif dyddiol o dros 20m³/dydd).

Yn 2021, methodd un gollyngiad o waith trin carthion ei derfynau rhifol a ganiateir. Felly, rydym yn adrodd mai 97.9% yw cydymffurfedd Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2021 â thrwyddedau gollwng rhifol (un allan o 47).

Mae hyn yn siomedig gan ei fod wedi cyflawni cydymffurfedd rhifol o 100% ers 2017. Disgwyliwn weld gwelliant yn y maes hwn a dychweliad i gydymffurfedd o 100% yn 2022.

³ I adrodd digwyddiad i ni, ffoniwch ein Llinell Gymorth Digwyddiadau ar 03000 65 3000.

Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol fel cynnal a chadw, rheoli ac adrodd.

Yn gyffredinol, mae cydymffurfio ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr sydd â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol yn 91.8% yn 2021. Ar ôl gwelliant yn 2020, mae'n siomedig gweld dirywiad ym mherfformiad cydymffurfedd ag amodau trwydded disgrifiadol.

	Cydymffurfedd ag amodau disgrifiadol	Nifer y gollyngiadau nad ydynt yn cydymffurfio
2019	93.3%	4
2020	96.7%	2
2021	91.8%	5

Roedd gan y pum achos o ollwng nad oeddent yn cydymffurfio yn 2021 gyfanswm o dri achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 4,⁴ dau achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 3 ac un achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 2 wedi'u cofnodi yn eu herbyn, gydag ystod o gamau gorfodi wedi'u cymryd, gan gynnwys rhybuddion a chyngor a chanllawiau.

Disgwylwn i Hafren Dyfrdwy anelu at gydymffurfedd o 100% yn y maes hwn a chynnal lefel gyson uchel o berfformiad.

Asesu cydymffurfedd â thrwyddedau gorlif storm

Gwelwyd hefyd nad oedd dau orlif carthffosiaeth cyfunol a ganiateir yn cydymffurfio ag amodau eu trwyddedau oherwydd manau lle roeddent wedi'u blocio. Nodwyd tri achos o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r drwydded yn y ddau orlif storm.

Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin carthion

Darparodd Hafren Dyfrdwy ddata Llif Tywydd Sych yn unol â gofynion ei drwydded. Adroddwyd bod tri o weithfeydd trin carthion wedi mynd y tu hwnt i'w terfynau Llif Tywydd Sych a ganiateir yn 2021, gan arwain at y safleoedd yn gollwng mwy o garthion a driniwyd nag a ganiateir. Mae'n ofynnol bod Hafren Dyfrdwy yn cynnal ymchwiliadau ac adrodd am achos y gormodiant i ni a, lle y bo'n briodol, yn cwblhau camau adferol o fewn amserlen gytunedig.

⁴ Rydym yn defnyddio categorïau diffyg cydymffurfio i sgorio achosion o dorri amodau trwydded. Maen nhw ar raddfa o 1 i 4:

- Categori 1 – Difrifol: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith fawr, ddifrifol, barhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- Categori 2 – Sylweddol: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- Categori 3 – Mân: posibilrwydd o gael mân ddylanwad neu effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- Categori 4 – Dim effaith: achos o ddiffyg cydymffurfio ar safle rheoledig lle nad oes modd rhagweld y bydd yn cael unrhyw ddylanwad ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.

Adroddwyd bod pedwar o weithfeydd trin carthion wedi profi problemau data yn 2021 ac mae Hafren Dyfrdwy yn gweithio i'w datrys.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw safleoedd yng Nghymru y mae Hafren Dyfrdwy yn ymchwilio iddynt oherwydd ymholiadau ynghylch eu terfynau llif trin llawn a ganiateir. Mae Hafren Dyfrdwy yn parhau i ymchwilio'n rhagweithiol i unrhyw safleoedd y mae'n ystyried eu bod mewn perygl o fethu terfynau llif trin llawn eu trwyddedau, sy'n golygu efallai nad ydynt yn trin swm y llif sy'n ofynnol o dan eu trwyddedau.

Mae Hafren Dyfrdwy wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli mewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, sef system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Roedd ei holl safleoedd yn cydymffurfio â gofynion ailardystio MCERTS yn 2021.

Ar ddiwedd 2021, cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat y byddent yn ymchwilio i achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded llif trin llawn gan weithfeydd trin carthion yn Lloegr. Mae'r ymchwiliadau'n dadansoddi gwybodaeth a gyflwynwyd gan gwmnïau dŵr i reoleiddwyr sy'n amlygu achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â thrwyddedau.

Yng Nghymru, nid ydym yn bwriadu cynnal ymchwiliad tebyg ar hyn o bryd, gan fod gennym ymateb cydymffurfio eisoes ar waith. Mae Hafren Dyfrdwy wedi bod yn rhannu gwybodaeth debyg gyda ni ers 2014. Nododd y gwaith hwn safleoedd yr oedd angen i Hafren Dyfrdwy ymchwilio iddynt, a edrychodd wedyn ar achosion diffyg cydymffurfio. Rydym wedi gweithio gyda Hafren Dyfrdwy i sicrhau bod y safleoedd yn dychwelyd i gydymffurfio â'u trwydded cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn parhau i gysylltu ag Ofwat i ddeall canlyniadau ei ymchwiliad yn Lloegr. Byddwn yn adolygu ein dull rheoleiddio presennol yng Nghymru, os bydd angen.

Gorlifoedd storm a ganiateir

Mae Hafren Dyfrdwy wedi gosod monitorau hyd digwyddiad (EDM), i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar bob un o'u gorlifoedd storm a ganiateir. Mae hyn yn golygu y bydd EDM yn cael eu gosod ar yr asedau canlynol:

- gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosydd cyfun)
- gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio
- gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin carthion

Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein [gwefan](#).

Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell

Ar 5 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell gynlluniau gweithredu ochr yn ochr â'i fap trywydd ar gyfer gorlifoedd storm ar ein [gwefan](#). Mae'r rhain yn nodi amcanion a chanlyniadau mesuradwy ar gyfer cyflawni gwelliannau i'r gwaith o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru o safbwynt amgylcheddol. Rydym yn bartner ar y tasglu hwn ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, sy'n cael cyngor annibynnol gan Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Fel y mae'r cynlluniau gweithredu yn y map trywydd yn nodi, rydym yn datblygu ein fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn mynd i'r afael ag effaith amgylcheddol gollyngiadau o orlifoedd storm.

Data EDM yr ydym yn adrodd arnynt

At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio data cryno EDM 2020. Daw'r data hwn o'r datganiad rheoleiddio blynyddol a gyflwynwyd gan Hafren Dyfrdwy.

Byddwn yn cwblhau gwiriadau ar ddata EDM 2021 fel y gellir ei gynnwys mewn adroddiadau dilynol, wedi'u halinio â'r gwaith yn y Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell.

Datganiad Rheoleiddiol ar Fonitro Hyd Digwyddiadau 2020

Roedd gan Hafren Dyfrdwy gyfanswm o 36 o drwyddedau (ar gyfer 44 o ollyngiadau) gydag amodau EDM mewn grym ynddynt yn 2020. Rydym wedi parhau i ddyroddi amrywiadau ar drwyddedau gorlif storm, gyda mwy wedi'u dyroddi ers hynny.

Rydym wedi cynnal gwiriadau ansawdd data ar y 44 o orlifoedd storm a ganiateir y cyflwynodd Hafren Dyfrdwy ddata cryno EDM 2020 ar eu cyfer. Defnyddiwyd y data hwn i gynhyrchu'r graffiau a'r canrannau isod.

Rydym yn cydnabod bod Cymru wedi profi ei phumed flwyddyn wlypaf ers 1865 yn 2020, gyda deg storm a enwyd yn effeithio ar y DU. Roedd Chwefror 2020 yn fis arbennig o wlyb gyda thair storm wedi'u henwi, a arweiniodd at y mis gwlypaf i Gymru ers 1865. Fodd bynnag, hyd nes y byddwn wedi cwblhau ein gwaith yn datblygu ffordd gadarn o nodi pryd mae gollyngiadau yn digwydd mewn tywydd sych, ni allwn ddod i unrhyw gasgliadau eto ar unrhyw dueddiadau neu batrymau yn yr adroddiad hwn.

Nifer y gollyngiadau

Mae data EDM 2020 ar nifer y gollyngiadau (gan ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif bloc)⁵ o 44 o orlifoedd storm Hafren Dyfrdwy a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- Cafodd 9% (4) o orlifoedd storm 0 gollyngiad;
- Cafodd 18% (8) ollyngiadau rhwng 1 a 9 gwaith;
- Cafodd 45% (20) ollyngiadau rhwng 10 a 39 gwaith;
- Cafodd 25% (11) ollyngiadau rhwng 40 a 99 gwaith;
- Cafodd 2% (1) ollyngiadau rhwng 100 a 300 gwaith.


⁵ The block counting methodology used to count spills from storm overflows is the 12/24 counting method:

1. Start counting when the first discharge occurs.
2. Any discharge (or discharges) in the first 12-hour block are counted as one spill.
3. Any discharge (or discharges) in the next, and subsequent 24-hour blocks, are each counted as one additional spill per block.
4. Continue counting until there's a 24-hour block with no discharge.

For the next discharge after the 24-hour block with no discharge, you begin again with the 12-hour and 24-hour block spill counting sequence.

NRW and the Environment Agency use this same approach for consistency across water companies.


Mae'r graff isod yn dangos y data hwn.



Hyd y gollyngiadau

Mae data EDM 2020 ar hyd y gollyngiadau o 44 o orlifoedd storm Hafren Dyfrdwy a ganiateir yn dweud y canlynol wrthym:

- Cafodd 9% (4) o orlifoedd storm 0 awr o ollyngiadau;
- Cafodd 55% (24) ollyngiadau a barodd am fwy na 0 awr ond llai na 50 awr;
- Cafodd 16% (7) ollyngiadau a barodd am o leiaf 50 awr ond llai na 250 awr;
- Cafodd 5% (2) ollyngiadau a barodd am o leiaf 250 awr ond llai na 500 awr;
- Cafodd 7% (3) ollyngiadau a barodd am o leiaf 500 awr ond llai na 1,000 awr;
- Cafodd 9% (4) ollyngiadau a barodd am o leiaf 1,000 awr ond llai na 5,000 awr.



Adrodd yn y dyfodol

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio o ran sut rydym yn gwirio, asesu a defnyddio'r data EDM y mae cwmnïau dŵr yn ei gyflwyno i ni. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffordd gadarn o nodi gorlifoedd storm sy'n gorlifo mewn tywydd sych.

Byddwn yn parhau i ddatblygu sut rydym yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad ar orlifoedd storm yn unol â'n camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer gorlifoedd storm, gan weithio'n agos gyda'r Tasglu Ansawdd Dŵr Afon Gwell.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i'n galluogi i rannu data cryno EDM o'r datganiad rheoleiddio ar ein cofrestr gyhoeddus.

Adnoddau dŵr

Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Ni chynaliasom unrhyw asesiadau cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr yn 2021. Fodd bynnag, disgwyliwn weld gwelliant mewn cydymffurfedd ar gyfer 2022, o'i gymharu â chydymffurfedd 2020 (pum achos o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded ar bedwar safle).

Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr yng Nghymru i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Caiff y rhain eu cyhoeddi bob pum mlynedd.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Hafren Dyfrdwy, gweler ei wefan:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr: www.hdcymru.co.uk/about-us/plan-and-strategy/water-resource-planning/water-resource-management-plan
- Cynllun Sychder: <https://www.hdcymru.co.uk/content/dam/hdcymru/about-us/drought-plan/Hafren%20Dyfrdwy%20Drought%20Plan%202020%20-%202025.pdf>

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- Cynllunio rheoli adnoddau dŵr: <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning/?lang=cy>
- Sychder: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought-planning-and-management/?lang=cy>

Y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw

Mae metrig y Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw yn mesur sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cwmni dŵr. Disgwylwn i gwmnïau gael sgôr o 100. 100 oedd sgôr Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2021.

Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd dŵr. Bydd cyfraddau gollyngiadau Hafren Dyfrdwy a gwybodaeth defnydd dŵr ar gyfer 2021/22 ar gael yn fuan yn discoverwater.co.uk/cy/.

Gwaith rheoliadol arall

Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae Hafren Dyfrdwy wedi cwblhau 100% o'r allbynnau disgwylidig ar gyfer Blwyddyn 2 a nodwyd yn ei Gynllun Rheoli Asedau 7 ar gyfer y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol trwy gwblhau dau o'r cynlluniau fel y bwriadwyd. Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Hafren Dyfrdwy i sicrhau bod ei raglen ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau 7 yn cael ei chyflenwi erbyn 2025.

Gorfodi (uwch na rhybudd)

Ni wnaethom gymryd unrhyw gamau gorfodi yn uwch na rhybudd yn erbyn Hafren Dyfrdwy yn 2021.

Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Mae cwmnïau dŵr yn gweithredu amrywiaeth o weithgareddau gwastraff, yn amrywio o drin biowastraff, tirlenwi, hylosgi bio-nwy, llosgi slwtsh a gorsafoedd trosglwyddo. Ar gyfer gweithgareddau a drwyddeddir, rydym yn asesu cydymffurfedd yn erbyn amodau trwydded ac yn sgorio unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Ni chynaliasom unrhyw asesiadau cydymffurfedd yn 2021.

Yn 2021, ni chafwyd unrhyw achosion o lygredd o weithgareddau gwastraff a weithredir gan Hafren Dyfrdwy.

Slwtsh

Nid oes unrhyw weithgareddau gwaredu slwtsh yn ardal weithredu Hafren Dyfrdwy.

Diogelwch cronfeydd dŵr

Ar ddiwedd 2021, roedd Hafren Dyfrdwy yn rheoli 15 o gyforgronfeydd dŵr mawr â chynhwysedd uwch sy'n fwy na 10,000m³, yr ydym yn eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod camau gweithredu sylfaenol yn cael eu gweithredu er mwyn atal dŵr rhag gollwng allan o reolaeth ac arwain at lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon. Mae'r camau'n cynnwys penodi panel o beirianwyr cronfeydd dŵr arbenigol a gweithredu'n gyflym ar eu hargymhellion.

Mae'n rhaid i gronfeydd dŵr sydd wedi'u dynodi fel cronfa ddŵr uchel ei risg fod yn destun archwiliadau statudol cyfnodol a gweithredu'r argymhellion a wneir gan beiriannydd archwilio annibynnol. Rhaid i'r cronfeydd dŵr hyn hefyd gael eu goruchwylio gan beiriannydd sifil cymwys ar bob adeg, a rhaid cadw cofnodion o'r brif wybodaeth a gweithgareddau monitro.

Arhosodd cydymffurfedd Hafren Dyfrdwy yn erbyn y dangosyddion diogelwch allweddol yn uchel drwy gydol y flwyddyn ac ni chofnodwyd unrhyw doriadau.

Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, ac mae dyletswydd arnynt i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru.

Bob ychydig o flynyddoedd, rydym yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol eu rheoli ledled Cymru ac ar y gweithgareddau sydd ar waith i godi ymwybyddiaeth y rhai hynny sydd mewn perygl a chynyddu eu cydnherthedd. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys felly Hafren Dyfrdwy. Disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Hydref 2022 (dwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru) a bob dwy flynedd ar ôl hynny. Gweler ein tudalen we [Perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru](#) am ragor o wybodaeth.

Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2022

Yn 2022, rydym yn disgwyl y bydd Hafren Dyfrdwy yn gwneud y canlynol:

- parhau i berfformio'n dda o safbwynt digwyddiadau llygredd difrifol, heb gael unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol;
- cynnal sgôr Mynegai Cydbwysedd rhwng Cyflenwad a Galw o 100;
- parhau i gyflwyno cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau o fewn y terfyn amser.

Ac rydym yn disgwyl y bydd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn gwella perfformiad:

- lleihau nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o gael dim digwyddiadau ;
- anelu at hunangofnodi 100% o ddigwyddiadau llygredd ;
- dychwelyd i gydymffurfedd 100% â therfynau rhifol ar gyfer gollyngiadau dŵr;
- anelu at gyflawni gydymffurfedd 100% ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr;
- lleihau effaith gorlifoedd stormydd drwy gyflawni ei gamau gweithredu yn y cynlluniau gweithredu â'r mapiau trywydd ar gyfer gorlifoedd stormydd.

Atodiad

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018 ond rydym yn defnyddio data yn yr adroddiad hwn sy'n dyddio nôl i 2015.

Ar gyfer data ar ddigwyddiadau a hunangofnodi, data cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr a data cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr a nodir yn y testun a'r graff yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r ffynonellau data canlynol:

- ar gyfer **2015**, **2016** a **2017**: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent yng Nghymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
- ar gyfer **2018**, gwnaethom gyfuno dau gyfnod (cyn ffurfio Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018 ac ar ôl ei ffurfio):
 - o 1 Ionawr 2018 hyd at 30 Mehefin 2018: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent yng Nghymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy;
 - o 1 Gorffennaf 2018 hyd at 31 Rhagfyr 2018: gwnaethom gyfuno data gan Severn Trent Water yng Nghymru, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy (gan y cafodd rhai amrywiadau trwydded eu cwblhau ar ôl 1 Gorffennaf) a Hafren Dyfrdwy;
- o 2019 ymlaen, gwnaethom ddefnyddio data gan Hafren Dyfrdwy yn unig.